



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 712A2016



Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru:

[info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys John Herniman, David Thomas, Claire Worrall, Gareth Lucey ac Andrew Doughton.

# Cynnwys

<b>Adroddiad cryno</b>	4
<b>Adroddiad manwl</b>	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	8
Adran 1: Archwilio cyfrifon	9
Rhoddais farn ddiamed ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, tynnais sawl mater at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn archwilio	9
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	13
Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond gallai maint y pwysau ariannol arwain at sefyllfa ariannol anghynaliadwy	14
Mae trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn llywio'r sefydliad mewn modd cadarnhaol ac mae ei bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, ond mae trosiant yr aelodau annibynnol yn cyflwyno risgiau o ran parhad ac mae angen datblygu'r trefniadau rheoli rhaglen ymhellach	16
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i gryfhau rheoliadau a gwneud defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol	18
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 – Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	22
Atodiad 2 – Ffi archwilio	23
Atodiad 3 – Risgiau archwilio	24

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2016.
- 2 Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau
- 3 Yn fy ngwaith archwilio canolbwytiais ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn [Atodiad 1](#).
- 4 Cytunwyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gerbron y Bwrdd ar 25 Ionawr 2017, a darparwyd copi i bob aelod o'r Bwrdd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 5 Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6..Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-Wrth wneud hynny, fodd bynnag, tynnais sawl mater at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r rhain yn ymwneud â chamddatganiadau a gywirwyd, materion a drafodwyd â rheolwyr yn ystod yr archwiliad o'r datganiadau ariannol a mater sy'n ymwneud ag esgeulustod yn y broses adrodd ariannol. Ni wnaeth fy ngwaith ddod o hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheoliadau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

- 7 Yn ogystal â hyn, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y rhain a'r goblygiadau ar gyfer 2016-17.
- 8 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2015-16. Rwyf wedi nodi mwy o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn [Adran 2](#) yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 9 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith asesu strwythuredig sydd wedi archwilio trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrhau a'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y materion gwella a nodwyd y llynedd. Mae adolygiadau archwilio perfformiad wedi'u cynnal hefyd ar feysydd penodol o ddarparu gwasanaethau. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys: defnyddio staff dros dro, trefniadau llywodraethu partneriaeth Eiddilwch Gwent a diweddiariad ar fy adroddiadau blaenorol ar gontractau meddygon ymgynghorol. Wrth wneud y gwaith hwn, deuthum i'r casgliadau canlynol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond gallai maint y pwysau ariannol arwain at sefyllfa ariannol anghynaliadwy

- 10 Fel rhan o'm gwaith ar reoli ariannol, ystyriais sut oedd cyrff Iechyd yn cynllunio eu cyllid yn y tymor byr a'r tymor canolig. Canfûm fod y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau cynllunio ariannol yn glir, yn ddealladwy ac yn ymrwymo rheolwyr ac arweinyddion clinigol mewn isadrannau. Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau, ochr yn ochr â gweithgareddau a phrosesau rheoli priodol. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal adolygiadau o'r systemau ariannol craidd bob blwyddyn, ac nid adroddwyd am unrhyw faterion mawr yn ystod 2015-16.
- 11 Rwyf wedi ystyried dull y Bwrdd Iechyd o wneud adroddiadau ariannol. Mae'r gwaith hwn yn dangos bod tystiolaeth o adroddiadau monitro misol sy'n adlewyrchu sefyllfa ariannol ddiwyll ac mae adroddiadau'r rheolwyr i'r Bwrdd yn dangos y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd o ran y sefyllfa ariannol a risgiau ariannol eraill.
- 12 Mae gan y Bwrdd Iechyd brofiad blaenorol o gyflawni ei gynlluniau gwella costau a'i gyllideb. Mae hyn yn cynnwys gosod targedau arbed arian uchelgeisiol i leddfu'r pwysau ar y gwasanaeth, ond hyd yn oed trwy wneud hynny, bu dal diffyg yn y gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn. Er bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu cynlluniau adfer ariannol ychwanegol, mae risg o hyd na fydd y Bwrdd Iechyd yn gwario o fewn ei ddyraniad heb gyllid ychwanegol.

Mae trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn llywio'r sefydliad mewn modd cadarnhaol ac mae ei bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, ond mae trosiant yr aelodau annibynnol yn cyflwyno risgiau o ran parhad ac mae angen datblygu'r trefniadau rheoli rhaglen ymhellach

- 13 Yn ystod y tair blynedd diwethaf, canfu fy ngwaith fod gwelliannau wedi bod o ran swyddogaeth trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys ehangu gwaith y tîm cynllunio canolog a sicrhau gwell cydbwysedd o atebolrwydd gweithredol ar gyfer datblygu cynlluniau a monitro'r cyflawniad yn eu herbyn.
- 14 Canfûm hefyd bod y trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro, adrodd a herio'r cynnydd ar gyflawni'r Cynllun Tymor Canolog Integredig (CTCI) wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae cymeradwyaeth gynnar y CTCI a'r cyhoeddiad diweddar o ran cymeradwyaeth yr achos busnes ar gyfer y Ganolfan Gofal Critigol Arbenigol (SCCC) yn dystiolaeth o hyn. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o hyd i ddangos faint o gynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y disgwyliadau gwreiddiol yn y Cynlluniau Newid Gwasanaeth er mwyn darparu darlun gwell o'r cynnydd dros amser.
- 15 Mae mwy o gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu dulliau o gefnogi a galluogi newid. Gan ystyried cymeradwyaeth ddiweddar yr SCCC a'r CTCI, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei gapasiti a'i ddawn i reoli'r rhaglen gyfalaf, a gweithredu newidiadau gwasanaeth perthnasol yn fwy eang.
- 16 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol gyda phwyslais da ar ansawdd gwasanaethau. Ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod gwneud newidiadau i strwythur ei bwyllgorau er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion sicrwydd newydd a'r diffyg capasiti o ran aelodau annibynnol. Mae'n archwilio'r angen am Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, bydd angen i'r Bwrdd a'i bwyllgorau sicrhau eu bod yn addasu i amrywiaeth o risgiau, gan gynnwys trosiant aelodau annibynnol, pwysau perfformio, a chyfleoedd a heriau eu hagenda newid uchelgeisiol.

Mae fy ngwaith ar archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i gryfhau rheoliadau a gwneud defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol

- 17 Mae fy rhaglen waith wedi cynnwys adolygu'r staffio dros dro, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio asiantaeth, cynnydd Partneriaeth Eiddilwch Gwent, dilyniant o'm hadolygiadau blaenorol ar gontractau meddygon ymgynghorol, ac asesiad o drefniadau monitro argymhellion y Bwrdd Iechyd. Gweler fy nghasgliadau isod.
  - Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i leihau'r galw ar staff dros dro, y defnydd a wneir ohonynt a'r gost o'u defnyddio, ond mae'n rhy gynnar i bennu a fydd hyn yn arwain at welliant cynaliadwy, ac mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu sicrwydd i'r Bwrdd ar faterion ansawdd a diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio staff dros dro.
  - Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi dangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion

cynyddol yn y gymuned. Ond canfu fy ngwaith rai gwendidau yn nhrefniadau llywodraethu'r Rhaglen ac nid yw eto wedi dangos gwelliannau gweladwy mewn canlyniadau.

- Mae gan y Bwrdd Iechyd fwy i'w wneud i ymwreiddio ei brosesau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol ar draws y sefydliad, i ddiogelu buddion arfaethedig contractau meddygon ymgynghorol, ac i weithredu pob un o'm hargymhellion cenedlaethol a lleol blaenorol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'i ddull o fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau yr eir i'r afael â'r holl argymhellion mewn modd amserol.

18 Cydnabyddwn â diolch y cymorth a'r cydweithrediad a roddwyd i ni gan staff y Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 19 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn ar gyfer 2016 i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi'r prif ganfyddiadau o'r gwaith archwilio yr wyf wedi'i wneud rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Tachwedd 2016.
- 20 Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004<sup>1</sup>. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - fy modloni fy hun fod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli; a
  - fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 21 Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
  - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
  - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
  - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
  - gwaith arall, fel ardystio ffurflenni.
- 22 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn **Atodiad 1**.
- 23 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- Adran 1:** Archwilio cyfrifon
  - Adran 2:** Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau
- 24 Yn **Atodiad 2** dangosir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol fras a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016
- 25 I gloi, nodir yn **Atodiad 3** y prif risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2016, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

<sup>1</sup> Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004



## Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 26 Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol (cyfrifon) y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Y datganiadau hyn yw ffordd y sefydliad o ddangos ei berfformiad ariannol. Maent yn dangos ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol
- 27 Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
  - a ydynt yn rhydd rhag camdatganiadau o bwys - a achoswyd drwy dwyll neu drwy wall;
  - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Daliadau wedi'i pharatoi'n briodol; a
  - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 28 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn archwilio**

### Roedd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir

- 29 Mae'r amserlen dynn ar gyfer cynhyrchu datganiadau cyfrifyddu blynyddol sy'n gywir ym mhob ffordd berthnasol, ac sydd wedi'u hategu'n dda, yn her i'r Bwrdd a'i dîm cyllid. Yn yr un modd â'r blynyddoedd cynt, paratôdd tîm cyllid y Bwrdd Iechyd gynllun cau manwl ar gyfer 2015-16. Roedd y cynllun yn nodi'r swyddogion cyfrifol a dyddiadau terfyn allweddol ac roedd yn cynnwys amser i'r rheolwyr a'r Pwyllgor archwilio adolygu'r datganiadau ariannol ac i baratoi papurau gwaith mewn pryd i'w harchwilio. Bu'r dull systematig hwn yn fodd i rwyddhau'r broses ac i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn barod er mwyn bodloni'r amserlen glirio lem. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r staff cyllid i adolygu'r broses a'r profiadau y flwyddyn hon er mwyn nodi unrhyw feysydd y gellir eu gwella yn 2016-17.

- 30 Cyn rhoi fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol, y mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Ystyriwyd fy adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio ar 31 Mai 2016 a chan y Bwrdd ar 2 Mehefin 2016 mewn pryd i gyflwyno'r datganiadau ariannol i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau. Ceir crynodeb yn **Arddangosyn 1** o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol**

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Camddatganiadau heb eu cywiro	<p>Golyga'r ddyletswydd statudol i fodloni cyfyngiad cyfanredol o dair blynedd ar adnoddau y byddwn yn casglu camddatganiadau heb eu cywiro o archwiliadau 2014-15, 2015-16 a 2016-17 ac yn ystyried eu heffaith gronol ar berfformiad y Bwrdd lechyd yn erbyn y ddyletswydd pan gaiff ei mesur ar ddiwedd 2016-17.</p> <p>Rydym wedi adolygu'r camgymeriadau nad oedd wedi'u haddasu yr adroddwyd arnynt y llynedd ac wedi cadarnhau bod y Bwrdd lechyd wedi cywiro pob un ohonynt ar wahân i un. Nid oes unrhyw gamddatganiadau yn natganiadau ariannol 2015-16 sydd heb e'u cywiro.</p>
Arferion Cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol	<p><b>Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus</b></p> <p>Mae Nodyn 7 i'r cyfrifon yn nodi bod y Bwrdd lechyd wedi cyrraedd targed Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (PSP) ar gyfer talu 95% o gredydwyr o'r tu allan i'r GIG o fewn 30 diwrnod; talwyd 95.6% o'r biliau o fewn y targed hwn. Mae'r PSP yn parhau i gael ei gam-ddatgan o bosibl oherwydd dull y Bwrdd lechyd o adrodd ynghylch anfonebau sy'n destun anghydfod. Rhagdybir yn anghywir bod rhai anfonebau sy'n destun anghydfod wedi'u talu o fewn 30 diwrnod, gan greu perfformiad ffafriol.</p>
Arferion Cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol	<p><b>Addasiad Cyfrifyddu Technegol – Cynnydd yng Nghostau Gwella Staff Di-dâl</b></p> <p>Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 12 Mai 2016, adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid fod cynnydd o £3.6 miliwn wedi'i gynnwys yn y cyfrifon am y tro cyntaf yn ystod 2015-16. Mae'r cynnydd yn ymwneud â newid yn y dull o gyfrifyddu costau gwella ar gyfer staff di-dâl, gan eu bod yn cael eu cyfrifyddu ar sail cronïadau yn hytrach nag arian parod. O ganlyniad, mae cyfanswm gwariant y Bwrdd lechyd wedi cynyddu £3.6 miliwn eleni, o'i gymharu â 2014-15 pan na chafodd unrhyw gynnydd o'r fath ei gynnwys.</p> <p>Rydym wedi adolygu'r cyfrifiad o'r cynnydd ac rydym yn fodlon ei fod yn rhesymol. Mae'r cynnydd hwn yn newid untro yn y ffordd yr ymdrinnir â'r cyfrifon a bydd angen i'r costau hyn gael eu trin yn yr un modd mewn blynyddoedd i ddod.</p>

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Arferion Cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol	<p><b>Cyfrifyddu ar gyfer ansicrwydd o ran Costau Gofal Iechyd Parhaus</b></p> <p>Mae Nodyn 18 i'r datganiadau ariannol yn nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cael mwy na 200 o hawliadau 'Cyfnod 3' gofal iechyd parhaus y mae'r broses asesu yn parhau i fod yn anghyflawn ar eu cyfer. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn adolygu'r achosion hyn ar ran holl sefydliadau GIG Cymru. Fodd bynnag, mae'r cynnydd o ran adolygu achosion unigol yn araf. Gan ystyried y gallai'r hawliadau olygu costau ychwanegol sylweddol i bob un o sefydliadau GIG Cymru, mae'n destun pryder nad yw'r achosion wedi'u hadolygu'n ddigonol eto i ganiatáu asesiad o'r costau posibl. Dylai Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan weithio gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gyflymu'r broses o adolygu achosion fel y gellir mesur y rhwymedigaethau posibl.</p>
Materion a drafodwyd ac a ohebwyd â rheolwyr	<p>Yn ystod yr archwiliad o'r datganiadau ariannol, trafodwyd a gohebwyd â rheolwyr ar un mater mawr. Yn yr Adroddiad ar Daliadau, roedd y cyflog a ddatgelwyd ar gyfer Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn cynnwys £2,000 sy'n ymwneud â dyletswyddau Iechyd Cyhoeddus Cymru a gordaliad posibl o ryw £8,000 - ac roedd y modd yr ymdriniwyd â hyn yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Iechyd. Cafodd y ddwy eitem hyn eu datgelu'n ddigonol yn yr Adroddiad ar Daliadau.</p>
Materion eraill pwysig wrth oruchwylio'r broses adrodd ariannol	<p>Yn sgil trefniadau adrodd newydd yn 2016-17, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd lunio adroddiad atebolrwydd ac adroddiad perfformio yn gynt na'r blynyddoedd blaenorol. Felly cyn cynhyrchu'r cyfrifon drafft, rhaid paratoi, adolygu a chymeradwyo'r dogfennau newydd hyn. Bydd angen cynnwys y gwaith hwn yn y broses o gau'r cyfrifon a rhaid i'r Pwyllgor Archwilio ei fonitro.</p>

31 Ar 1 Ebrill 2014, diwygiodd Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a'i gwneud hi'n ofynnol i fyrddau Iechyd fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyhoeddais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i egluro'r dyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2016-17.

- Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd o ran adnoddau, drwy eu galluogi i fantoli eu hincwm a'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, gan ddisodli'r ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon bob blwyddyn. Y cyfnod cyntaf o dair blynedd o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 hyd 2016-17. Felly ni fydd perfformiad y byrddau Iechyd o dan y ddyletswydd hon yn cael ei fesur hyd 2016-17. Pan na fydd BILl yn mantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd, bydd unrhyw wariant dros y cyfyngiad gwario a osodwyd ar gyfer y tair blynedd hynny uwchlaw awdurdod y Bwrdd Iechyd i wario, ac felly bydd yn

'afreolaidd'. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol i mi roi fy 'marn rheoleidd-dra' waeth faint yw gwerth y gwariant uwchlaw'r cyfyngiad.

- Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd baratoi CTCl tair blynedd treigl, a sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y cynllun hwnnw. Mae'r ddyletswydd hon yn sylfaen hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd a chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf.

Ystyrir bod bwrdd iechyd wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2015-16 os cyflwynwyd cynllun o 2015-16 hyd 2017-18 a gymeradwywyd gan ei Fwrdd i Weinidogion Cymru, a bod hwythau wedi'i gymeradwyo erbyn y dyddiad y llofnodwyd Datganiadau Ariannol 2015-16 gan y Swyddog Atebol.

- Cafodd CTCl y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-2018 gymeradwyaeth Gweinidogion ar 2 Mehefin 2015. Er bod gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg arfaethedig o £19.7 miliwn ar gyfer 2015-16 (fel y nodwyd yn CTCl y Bwrdd Iechyd), dengys nodiadau 2.1 a 2.2 i'r Datganiadau Ariannol ei fod yn gweithredu o fewn ei referniw blynyddol a'i ddyraniadau adnoddau cyfalaf. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei dargedau o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol o £16.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 a llwyddiant y bwrdd i ryddhau £13 miliwn o'i gynlluniau cynilo.

32 Yn rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2016, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Adroddiad ar Daliadau - Deuthum i'r casgliad bod yr Adroddiad ar Daliadau wedi'i lunio'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn sgil y Ddeddf honno; a
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - Golyga'r newidiadau i'r Ddeddf Cwmniâu nad oes angen barn archwilio ar wahân ar gysondeb 'Datganiadau Ariannol Cryno' mwyach pan gaiff ei chyflwyno gydag adroddiadau blynyddol yn lle datganiadau ariannol llawn. Fel y digwyddodd, penderfynodd y Bwrdd Iechyd beidio â chyhoeddi datganiadau ariannol cryno eleni. Deuthum i'r casgliad nad oedd yr wybodaeth arall a oedd ar gael ar ôl dyddiad y dystysgrif archwilio a'r adroddiad yn gwbl anghyson â'r datganiadau ariannol llawn.

33 Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol a chyflwynais farn archwilio ddiarnod ar 28 Tachwedd 2016. Cyn rhoi fy marn archwilio, mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu, ac ystyriwyd fy adroddiad gan y Bwrdd Iechyd ar 23 Tachwedd 2016, cyn i'r datganiadau gael eu cymeradwyo.

## Ni wnaeth fy ngwaith ddarganfod unrhyw wendidau o bwys yn rheoliadau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon

- 34 Adolygais y rheoliadau mewnol hynny yn y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'r archwiliad, yn fy nhyb i, er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiadau o bwys yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni wneuthum eu hystyried at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd gweithredu'r rheoliadau mewnol. Ni wnaeth fy ngwaith ddod o hyd i unrhyw wendidau o bwys yn amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd.
- 35 Fodd bynnag, cododd nifer o faterion yn sgil fy ngwaith archwilio, yn cynnwys y materion y cyfeiriwyd atynt yn [Arddangosyn 1](#), a chafodd y rhain eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2016.
- 36 Cadarnhaodd adolygiadau Archwilio Mewnol o'r systemau ariannol hynny a reolir yn y Bwrdd Iechyd a Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP) bod system rheoli ariannol fewnol gadarn ar waith yn gyffredinol. Mae saith o'r wyth adolygiad archwilio ariannol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys rheoli cyllidebol a chynllunio ariannol, yn darparu sicrwydd rhesymol ac un adolygiad cwmpas cyfyngedig ar Gronfeydd Elusennol (mewn cysylltiad â Rafflau) yn darparu sicrwydd cyfyngedig bod y rheoliadau mewnol wedi'u dylunio'n briodol ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol.
- 37 Canfu'r Archwiliad Mewnol rai gwendidau o ran cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau mewn rhai isadrannau o'r Bwrdd Iechyd. Rhaid cymryd camau rheoli parhaus i ymdrin â chanfyddiadau Archwiliadau Mewnol a datblygwyd cynlluniau gweithredu i gryfhau'r gwendidau a welwyd o ran rheoli, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i graffu ar y cynnydd.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 38 Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd a wneir o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a chyfraniad y cynlluniau hynny at sicrhau cydbwysedd ariannol;
  - asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu a sicrhau'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a gyflwynwyd y llynedd yn yr asesiad strwythuredig;

- adolygiadau archwilio lleol penodol, sy'n cynnwys defnyddio staff dros dro ac adolygu cyfnod 2 gwasanaethau Eiddilwch Gwent; ac
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran olrhain y cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau allanol.

39 Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith hwn dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond gallai maint y pwysau ariannol arwain at sefyllfa ariannol anghynaliadwy

40 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn ystod 2016 wedi ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Rwyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, y rheoliadau a'r stiwardiaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Mae fy phrif ganfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

### Mae trefniadau cynllunio ariannol a gosod cyllidebau gweithredol yn effeithiol, ond nid yw'r cynlluniau ariannol hirdymor yn dangos sefyllfa gynaliadwy eto

- 41 Fel rhan o'm gwaith ar reoli ariannol, ystyriais sut oedd cyrff iechyd yn cynllunio eu cyllid yn y tymor byr a'r tymor canolig. Canfûm fod y swyddogaethau a'r chyfrifoldebau cynllunio ariannol yn glir, yn ddealladwy ac yn ymrwymo rheolwyr ac arweinwyr clinigol mewn isadrannau. Yn ogystal â hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau priodol ar gyfer sefydlu cynllun ariannol fel rhan o'i CTCI.
- 42 Cafodd CTCI 2016-2019 gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Mehefin 2016 ar yr amod bod y Bwrdd Iechyd yn mynd ati i reoli'r risg ariannol o £12.8 miliwn a amlinellwyd yn y cynllun. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen gwneud mwy o waith ar bennu sut bydd cynlluniau gwasanaeth a gweithlu yn cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Rhagwelir na fydd setliadau cyllid Llywodraeth Cymru mor hael ar ôl 2016-17, a gallai hyn osod llawer mwy o bwysau ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.

### Mae'r rheoliadau o fewn y flwyddyn yn gweithredu'n effeithiol ac yn sicrhau stiwardiaeth ariannol briodol

43 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau, ochr yn ochr â gweithgareddau a phrosesau rheoli priodol. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal adolygiadau o'r systemau ariannol craidd bob blwyddyn, ac nid adroddwyd ar unrhyw faterion mawr yn ystod 2015-16. Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd hefyd yn chwarae rhan weithredol yn y fframwaith rheoli, gan nodi gofynion sicrwydd newydd trwy broses asesu risg barhaus. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau Archwiliadau Mewnol yn

rheolaidd ac yn monitro argymhellion ar gyfer gwella er mwyn nodi unrhyw feysydd risg eraill.

#### Mae'r adroddiadau ariannol yn ddigonol i hysbysu penderfyniadau pan fydd angen cymryd camau unioni

- 44 Rwyf wedi ystyried dull y Bwrdd Iechyd o gyflwyno adroddiadau ariannol i'r Bwrdd. Mae'r gwaith hwn yn dangos bod adroddiadau monitro misol yn adlewyrchu sefyllfa ariannol ddidwyll. Mae'r adroddiadau i'r Bwrdd yn ddigon clir i hysbysu darllenwyr o'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd o ran y sefyllfa ariannol a risgiau ariannol eraill. Fodd bynnag, nid yw'r fformat adrodd presennol yn amlygu'n glir y rhesymau sylfaenol sydd wrth wraidd symudiadau yn y sefyllfa ariannol. Mewn ymateb i adroddiadau ariannol a ddaeth i law eleni, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau adfer ariannol yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol ychwanegol a brofir yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn helpu i ddangos ymatebolrwydd i risgiau ariannol a phwysau newydd.
- 45 Ychydig o adroddiadau ariannol ad hoc a gyflwynwyd i'r Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio ac ni welwyd unrhyw newidiadau diwedd blwyddyn sylweddol i'r sefyllfa ariannol ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnig sicrwydd pellach o brosesau monitro ac adrodd ariannol y Bwrdd Iechyd.

#### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i reoli ei wariant o fewn terfyn adnoddau refeniw 2015-16, ond roedd yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru ychwanegol yn ystod y flwyddyn ac mae ei sefyllfa ariannol bresennol yn parhau i fod yn fregus

- 46 Mae gan y Bwrdd Iechyd brofiad blaenorol o gyflawni ei gynlluniau ar gyfer gwella costau a'i gyllideb ac yn gosod targedau arbed arian uchelgeisiol. Ond hyd yn oed trwy wneud hynny, llwyddwyd i gyflawni cyllideb a oedd yn ddiffygiol ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ar y cyfan heb lawer o gynnydd mewn costau annisgwyl.
- 47 Er gwaethaf y diffyg arfaethedig o £19.7 miliwn ar gyfer 2015-16 a nodwyd yn CTCL y Bwrdd Iechyd, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i weithredu o fewn ei ddyraniad blynyddol o adnoddau refeniw a'i ddyraniad blynyddol o adnoddau cyfalaf. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei dargedau o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol o £16.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 a llwyddiant y bwrdd i ryddhau £13 miliwn o'i gynlluniau cynilo
- 48 Rhagwelir ar gyfer y flwyddyn bresennol y bydd diffyg o £4.1 miliwn erbyn mis Rhagfyr 2016. Er bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau adfer ariannol ychwanegol i reoli ei risgiau ariannol, mae risg yn parhau na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gwario o fewn ei ddyraniad heb gyllid ychwanegol.

**Mae trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn llywio'r sefydliad mewn modd cadarnhaol ac mae ei bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, ond mae trosiant yr aelodau annibynnol yn cyflwyno risgiau o ran parhad ac mae angen datblygu'r trefniadau rheoli rhaglen ymhellach**

49 Mae fy ngwaith llywodraethu a sicrwydd wedi asesu trefniadau cynllunio ac adrodd strategol y Bwrdd Iechyd a'r dull a ddefnyddir ganddo i ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd bwrdd. Rwyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion a materion gwella'r asesiad strwythuredig blaenorol.

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau'r gwaith cynllunio strategol, ond mae angen iddo ddatblygu ei allu i reoli newid ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r buddion a nodwyd yn ei brif raglenni strategol a'i raglen ar gyfer canolfan gofal critigol arbenigol**

- 50 Mae'r canfyddiadau sydd wrth wraidd y casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull y Bwrdd Iechyd o greu cynlluniau strategol<sup>2</sup>, a'r trefniadau sy'n cefnogi cyflawniad rhaglenni newid strategol sy'n ategu'r CTCI. Mae fy ngwaith wedi canfod bod gwelliannau wedi'u gwneud i swyddogaeth trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys ehangu gwaith y tîm cynllunio canolog a sicrhau cydbwysedd gwell o atebolrwydd gweithredol dros ddatblygu cynlluniau a monitro'r cyflawniad yn eu herbyn.
- 51 Canfûm hefyd fod y trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a herio cynnydd ar gyflawni'r CTCI wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella'r ffordd y mae'n disgrifio'i ddisgwyliadau newid yn y CTCI trwy nifer o gynlluniau newid gwasanaeth diffiniedig sydd wedi'u cynnwys ynddo. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o hyd i ddangos faint o gynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y disgwyliadau gwreiddiol mewn cynlluniau newid gwasanaeth er mwyn darparu darlun gwell o'r cynnydd dros amser.
- 52 Mae cyfleoedd pellach i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu dulliau ar gyfer cefnogi a galluogi newid. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cryn ymdrech i gyflwyno hyfforddiant ar sgiliau IQT<sup>3</sup> sy'n cefnogi gwell ansawdd gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull effeithiol o reoli newid ffurfiol eto ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau ac nid oes swyddfa rheoli rhaglen ffurfiol. Mae'r ganolfan gofal critigol arbenigol a'r CTCI wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar. Gan ystyried hyn, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei gapasiti a'i ddawn i reoli ei

<sup>2</sup> Nid yw gwaith archwilio wedi dyblygu gwaith craffu Llywodraeth Cymru ar y CTCI, ond mae wedi ystyried camau a gymerwyd gan gyrff y GIG mewn ymateb i unrhyw adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gynllun neu amodau cymeradwyo cynllun

<sup>3</sup> [Gwefan Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd](#)



raglen gyfalaf, newidiadau cysylltiedig i'r gwasanaeth a gweithrediad ehangach y rhaglen dyfodol clinigol.

**Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, ond mae risgiau yn bodoli o ran parhad aelodaeth annibynnol ac mae angen i drefniadau fframwaith sicrwydd y bwrdd gysylltu'n well â chyflawniad hirdymor amcanion**

53 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfûm fod:

- y Bwrdd lechyd wedi gwneud newidiadau i ddyluniad ei drefniadau sicrwydd, a yrrir gan anghenion sicrwydd newydd a chapasiti aelodau annibynnol ac mae'n dechrau edrych ar yr angen am Fframwaith Sicrwydd Bwrdd; ac
- mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i ymddwyn mewn modd priodol sy'n canolbwyntio ar ansawdd, a bydd angen iddynt sicrhau eu bod yn addasu i'r amrywiaeth o risgiau, yn cynnwys trosiant aelodau, pwysau perfformio a chyfleoedd a heriau eu hagenda newid uchelgeisiol.

54 Mae fframweithiau sicrwydd Bwrdd a mapio sicrwydd yn drefniadau ffurfiol i helpu sefydliadau i ddylunio gofynion a phrosesau sicrwydd mewn modd sy'n eu helpu i gyflawni yn erbyn eu hamcanion. Mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau trafod sut allai fframweithiau sicrwydd bwrdd ffurfiol fod o fudd i'r sefydliad gyda sesiwn gychwynnol a hwyluswyd gan ymgynghorwyr allanol. Er nad oes unrhyw broses mapio sicrwydd ffurfiol, mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau i helpu i bennu ei ofynion sicrwydd a'i systemau sicrwydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio hunanasesiadau llywodraethu ac atebolrwydd y safonau gofal iechyd, hunanasesiadau pwyllgor a sesiynau datblygu bwrdd. Mae canlyniadau'r sesiwn a hwyluswyd wedi helpu'r Bwrdd lechyd i lunio barn ar waith ychwanegol sydd ei angen ac sy'n ffurfio rhan o'r dull gwella parhaus, dan arweiniad y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

55 Mae'r Bwrdd lechyd wedi newid strwythur ei bwyllgorau yn ystod y flwyddyn, yn rhannol oherwydd prinder capasiti'r aelodaeth annibynnol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelwyd prinder yn nifer yr aelodau annibynnol ac, er bod rhai penodiadau wedi'u gwneud, mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i brofi risgiau o ran capasiti gan y bydd nifer o'r aelodau yn dod at ddiwedd eu cyfnod mewn swydd yn ystod 2017. Pan fydd y Bwrdd yn dychwelyd i aelodaeth lawn, deallaf y bydd ganddo gyfle i ailasesu cwmpas a swyddogaethau'r pwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y Bwrdd sy'n esblygu.

56 Pan mae fy archwilwyr wedi mynd i bwyllgorau ac arsylwi arnynt, maen nhw wedi gweld rhyng-weithio da rhwng y pwyllgorau a rhwng pwyllgorau a'r Bwrdd. Mae hyn wedi cynnwys uwchgyfeirio problemau a materion at sylw'r bwrdd, dirprwyo materion a nodwyd yn y bwrdd i bwyllgor i'w harchwilio ymhellach, a throsglwyddo materion o un pwyllgor i'r llall. Mae cyfarfodydd Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol gyda dull sy'n canolbwyntio ar ansawdd sy'n defnyddio straeon cleifion i helpu i ganolbwyntio'r cyfarfod ar ofal a phrofiad y claf.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd rhesymol ar fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd

- 57 O adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol, gwelir bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd. O'r 15 argymhelliad a gyflwynwyd yn ystod 2014 a 2015, mae tri ohonynt wedi'u cwblhau, 11 ohonynt ar y trywydd cywir ond yn dal ar waith ac nid oes digon o dystiolaeth i nodi'r cynnydd ar un ohonynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cryn ymdrech i fynd i'r afael â'r materion sydd ar ôl a sylweddolir bod llawer o'r materion y mae'r argymhellion yn ymdrin â nhw yn rhai cymhleth a heriol.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i gryfhau rheoliadau a gwneud defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

- 58 Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'm rhaglen waith leol a gorfodol ar archwilio perfformiad yr wyf wedi adrodd arni yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cynnwys adolygu staffio dros dro gyda phwyslais penodol ar ddefnyddio asiantaethau, datblygiad y Bartneriaeth Eiddilwch Gwent, diweddariad o fy adolygiadau blaenorol o gontractau meddygon ymgynghorol ac asesu trefniadau monitro argymhellion y Bwrdd Iechyd.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i leihau'r galw ar staff dros dro, y defnydd a wneir ohonynt a'r gost o'u defnyddio, ond mae'n rhy gynnar i bennu a fydd hyn yn arwain at welliant cynaliadwy, ac mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu sicrwydd i'r Bwrdd ar faterion ansawdd a diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio staff dros dro

- 59 Canfu fy ngwaith ar ddefnydd y Bwrdd Iechyd o staff dros dro fod ganddo wybodaeth dda i'w helpu i ddeall y galw sydd arno am staff dros dro, a yrrir yn bennaf gan swyddi gwag, salwch, mamolaeth ac absenoldeb hyfforddi/astudio. Caiff y galw ar y gweithlu, y defnydd o asiantaethau nyrsio a locwm a'r gwariant eu trafod a'u herio'n rheolaidd gan y Bwrdd ac mewn nifer o'i bwyllgorau.
- 60 Mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar staff, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno amrywiaeth o reoliadau i leihau'r galw am staff asiantaeth. Ond mae'n rhy gynnar i bennu a fydd y rheoliadau hyn yn arwain at lai o alw cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r camau a gymerwyd ganddo yn cynnwys cynyddu cyfraddau tâl staff cronfa er mwyn denu mwy o staff i'r garfan o weithwyr cronfa, gweithgarwch i gadw mwy o staff, ac ymarferion recriwtio lleol a rhyngwladol.
- 61 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o gostau staffio dros dro ar lefel uchel i gefnogi gwaith craffu a phenderfynu, a gwybodaeth ariannol fanylach i gefnogi rheolaeth weithredol. Gwariwyd £10.2 miliwn ar asiantaethau nyrsio ar draws pob isadran o'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2015-16. Er bod costau misol 2015-16 ar gyfer staff meddygol asiantaeth wedi bod yn is na chostau asiantaethau nyrsio yn gyffredinol, dangosodd costau asiantaeth locymau meddygol a deintyddol fod y

gwariant mwyaf yn ystod mis Rhagfyr a mis Mawrth. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau cynyddol ar y gweithlu meddygol sy'n arwain at ddefnyddio mwy o staff asiantaeth.

- 62 Yn ystod 2015-16, aeth oddeutu 90% o'r gwariant ar nyrsys asiantaeth i gyflenwr asiantaeth nad oes ganddo gontract â'r Bwrdd Iechyd. Roedd defnydd a dibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar asiantaethau 'heb gontract' wedi cynyddu'n raddol dros amser ac roedd hyn wedi'i sbarduno gan y galw uchel, ynghyd â chyflenwad isel gan asiantaethau fframwaith contract. Dylanwadodd hyn ar ei ddefnydd o gyflenwyr asiantaeth drutach. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi mecanweithiau ar waith bellach i gyfyngu ar y defnydd o asiantaethau nyrsio 'heb gontract' a deallir bod y camau hyn wedi lleihau'r defnydd o gyflenwyr heb gontract yn sylweddol ers dechrau blwyddyn ariannol 2016-17.
- 63 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i ddarganfod ac ymateb i dwyll sy'n ymwneud â staff dros dro. Mae'n gweithio gyda'r tîm Gwrth Dwyll Lleol i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff o fecanweithiau chwythu'r chwiban, ac mae'n mynd ati i ymchwilio a chymryd camau, fel y bo'n briodol, mewn nifer bychan o achosion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli, fodd bynnag, mai prin iawn yw'r achosion o dwyll ymhlith staff asiantaeth a bod y rhan fwyaf o'r achosion yn ymwneud â staff parhaol y Bwrdd Iechyd.
- 64 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau rhesymol i sicrhau ansawdd staff dros dro cyn ac yn ystod eu cyflogaeth. Ond nid oes ganddo drefniadau cwbl effeithiol ar gyfer ymsefydlu a hyfforddi ei weithlu dros dro na digon o wybodaeth i allu deall patrymau o ddigwyddiadau niweidiol sy'n gysylltiedig â defnyddio staff dros dro. Mae lle i gryfhau'r sicrwydd y mae pwyllgorau yn eu cael i'w helpu i nodi unrhyw bryderon ansawdd a diogelwch sy'n ymwneud â'r defnydd cyffredinol o weithlu dros dro. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i faterion unigol sy'n codi ac yn mynd i'r afael â'r rhain.

**Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi dangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion cynyddol yn y gymuned, ond canfu fy ngwaith rai gwendidau yn nhrefniadau llywodraethu'r Rhaglen ac nid oes tystiolaeth eto o welliannau pendant yn y canlyniadau.**

- 65 Canfu fy ngwaith ar Raglen Eiddilwch Gwent ei bod wedi llwyddo i ddod â phartneriaid ynghyd a fuddsoddodd amser ac adnoddau gyda'r nod o wella'r canlyniadau i bobl eiddil oedrannus. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd nodau ariannol y rhaglen ac mae partneriaid o hyd yn ei chael hi'n anodd dangos tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol i unigolion.
- 66 Ystyriais drefniadau llywodraethu'r bartneriaeth, effeithiolrwydd ymgysylltu â phartneriaid ar benderfyniadau allweddol a thryloywder busnes y bartneriaeth dros oes y rhaglen. Canfûm yn benodol fod y trefniadau llywodraethu yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau amserol, ond nad yw'r sefydliadau partner bob amser yn cael eu hysbysu'n ddigonol am faterion pwysig sy'n effeithio ar y Rhaglen, megis y tanwariant mawr sy'n dod i'r amlwg. Roedd y trefniadau adrodd

ariannol o fewn y Rhaglen yn ddigonol ar y cyfan, ond nid oedd yr adrodd ar berfformiad yn addas i'r diben. Cafodd tryloywder cyhoeddus a chofnodi penderfyniadau ddechrau da, ond aeth y rhain yn wannach dros amser. Nid oedd y gwaith craffu rheolaidd ar benderfyniadau Pwyllgor Eiddilwch Gwent yn gadarn, er bod mwyafrif y partneriaid yn adrodd yn flynyddol trwy eu trefniadau craffu eu hunain.

- 67 Ystyriais hefyd i ba raddau yr oedd partneriaid yn ymrwymedig i'r rhaglen a rhai o'r risgiau a'r cyfleoedd wrth fynd ymlaen. Canfûm fod y Rhaglen wedi elwa o gael ymrwymiad cryf gan y sefydliadau partner, ond mae angen ail-gadarnhau hyn yng nghyd-destun yr heriau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r sefydliadau unigol. Hefyd, ar yr adeg y gwneuthum fy ngwaith, nid oedd cyfeiriad y Rhaglen yn glir ar gyfer y dyfodol. Roedd y bartneriaeth ar bwynt tyngedfennol, gyda'r partneriaid eto i gytuno ar weledigaeth glir a oedd angen canlyniadau a buddion mesuradwy.

**Mae gan y Bwrdd Iechyd Fwy i'w Wneud i Ymwreiddio ei Brosesau Cynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol ar Draws y Sefydliad, i Ddiogelu Buddion Arfaethedig Contractau Meddygon Ymgynghorol, ac i Weithredu pob un o'm Hargymhellion Cenedlaethol a Lleol Blaenorol**

- 68 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhai trefniadau da ar gyfer adolygu cynlluniau swyddi bob blwyddyn, ond mae angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael ag argymhellion archwiliadau blaenorol. Daeth y Contract diwygiedig ar gyfer Meddygon Ymgynghorol GIG Cymru (y contract) i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac mae'n nodi y dylid adolygu cynllun swydd meddyg ymgynghorol o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y cynlluniau swyddi yn ystyried patrwm newidiol y gwasanaethau a ddarperir. Mae gan 99% o feddygon ymgynghorol gynllun swydd, ond dim ond oddeutu hanner ohonynt sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn. Er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio swyddi, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu canllawiau da a deunyddiau hyfforddi. Ond nid yw'r presenoldeb mewn cyfarfodydd cynlluniau swyddi yn dilyn y trefniadau a nodir yn y canllawiau cenedlaethol yn gyson, a gellid alinio arfarniadau blynyddol a chynlluniau swyddi yn well.
- 69 Noda'r contract yn glir y dylai meddygon ymgynghorol gytuno ar set briodol o ganlyniadau, sy'n berthnasol i'r arbenigedd, sy'n heriol, yn dryloyw ac yn arloesol. Er bod rhai arbenigeddau yn y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd, mae angen gwneud mwy i ymwreiddio'r gwaith o osod a monitro canlyniadau priodol ar draws y sefydliad.
- 70 Gallai'r Bwrdd Iechyd hefyd wneud mwy i ddiogelu'r buddion o'r contract, yn enwedig trwy ddefnyddio cynlluniau swydd i gefnogi gwell gwasanaethau, hyrwyddo'r gwaith o osod canlyniadau a monitro staff sy'n gweithio gormod o oriau. Un o brif amcanion y contract yw hwyluso gweithio agosach rhwng rheolwyr iechyd a meddygon ymgynghorol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a'r buddion i gleifion. Defnyddir cynllunio swyddi i gefnogi gwasanaethau gwell mewn rhai gwasanaethau clinigol yn y Bwrdd Iechyd, ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i ymgysylltu meddygon ymgynghorol yn y

broses o foderneiddio gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, mae gweithgareddau proffesiynol cefnogol yn cynnwys hyfforddi ac addysgu'r genhedlaeth nesaf o feddygon, gwneud gwaith ymchwil, cynnal archwiliadau clinigol a llywodraethu clinigol. Mae'r dulliau o gynllunio swyddi yn y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y math o sesiynau gweithgareddau proffesiynol cefnogol sydd eu hangen, a faint o'r rhain sydd eu hangen. Ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau ei fod yn cael y buddion mwyaf posibl o'r gweithgareddau hyn.

- 71 Mae'r contract hefyd yn nodi y bydd wythnos gwaith ar gyfer meddyg ymgynghorol amser llawn yn cynnwys deg sesiwn, gyda phob un yn para rhwng tair a phedair awr. Erbyn mis Mawrth 2015, roedd cyfran y meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd a oedd yn gweithio mwy na 12 o sesiynau wedi cyrraedd 27%. Gallai hyn gyflwyno risgiau i lesiant y staff cysylltiedig ac i ddiogelwch y gwasanaethau a ddarperir. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn monitro staff sy'n gweithio gormod o oriau, yn cydnabod trefniadau ar alwad yn ddigonol mewn cynlluniau swyddi ac yn gwneud defnydd gwell o gynllunio swyddi tîm er mwyn helpu i reoli'r risgiau hynny.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'i ddull o fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau yr eir i'r afael â'r holl argymhellion mewn modd amserol**

- 72 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'm hargymhellion yn asesiadau strwythuredig 2014 a 2015, ystyriais hefyd effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran monitro'r cynnydd yn erbyn fy argymhellion archwilio yn fwy cyffredinol. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dull ar gyfer olrhain argymhellion archwiliadau allanol. Erbyn hyn mae'r Pwyllgor Archwilio yn olrhain y cynnydd mewn ymateb i argymhellion archwilio allanol, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau yr eir i'r afael yn llwyr â'r holl argymhellion mewn modd amserol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
<b>Adroddiadau archwilio ariannol</b>	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mehfin 2016
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehfin 2016
Archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol	Tachwedd 2016
<b>Adroddiadau archwilio perfformiad</b>	
Adolygiad Dilynol o Gontractau Meddygon Ymgynghorol	Medi 2016
Asesiad Strwythuredig 2016	Rhagfyr 2016
Adolygiad o Eiddilwch Gwent - cyfnod 2	Hydref 2016
Adolygiad o staffio dros dro	Tachwedd 2016
<b>Adroddiadau eraill</b>	
Cynllun Archwilio 2016	Ebrill 2016

Arddangosyn 3: Gwaith archwilio perfformiad sy'n parhau i fod ar waith

Mae hefyd nifer o archwiliadau perfformiad sy'n parhau i fod ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda dyddiadau bras ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Adroddiad	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Adolygiad o Wasanaethau Radioleg	Mawrth 2017
Adolygiad o Wasanaethau Meddygon y tu allan i oriau	Ebrill 2017
Adolygiad o Gynlluniau Rhyddhau	Gorffennaf 2017
Dilyn i fyny ar gleifion allanol – diweddariad ar y cynnydd	Mawrth 2017
Cynllunio gweithlu strategol – cymorth a her (mae'n bosibl na fydd yr allbwn ar ffurf adroddiad archwilio ysgrifenedig ffurfiol).	Mehfin 2017

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Cyflwynodd Cynllun Archwilio 2016 ffi archwilio arfaethedig o £417,992 (heb gynnwys TAW). Mae fy nyfynbris o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn parhau i fod ar droed, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio

### Arddangosyn 4: Risgiau archwilio

Yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2016, nodwyd y risgiau archwilio ar gyfer 2016. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod trafodion yn rheolaidd a chyfreithlon.	Bydd fy nhîm archwilio'n profi cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol sydd ar waith sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn sicrhau bod trafodion yn gywir, rheolaidd a chyfreithlon.	Cynhaliwyd profion ar gofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol fel y cynlluniwyd, a chanfod eu bod yn gadarn. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o drafodion afreolaidd nac anghyfreithlon.
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;</li><li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; ac yn</li><li>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol.</li></ul>	Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth fod rheolwyr yn diystyru rheolaethau.



Risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae risg sylweddol na fydd y Bwrdd lechyd yn gallu bodloni ei ddyraniad adnoddau refeniw am y flwyddyn. Dangosai'r sefyllfa ym mis 9 ddiffyg hyd hynny o £5.4 miliwn, ond rhagwelwyd y bydd wedi mantoli'r cyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn.</p> <p>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd lechyd yn cynyddu'r risg y gallai rheolwyr ddangos tuedd tuag at farnau ac amcangyfrifon mewn ymdrech i gadw o fewn cyfyngiad yr adnoddau.</p> <p>Efallai y byddaf yn dewis llunio adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol er mwyn egluro perfformiad y Bwrdd yn erbyn ei ddyletswyddau ariannol statudol dan Ddeddf Cyllid Gwasanaeth lechyd Gwladol (Cymru) 2014.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ei brofion ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd wrth adrodd.</p>	<p>Cadarnhaodd y gwaith archwilio bod y Bwrdd lechyd wedi bodloni ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol am 2015-16. Cyhoeddais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i egluro'r dyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd lechyd yn eu herbyn a'r goblygiadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.</p>
<p>Mae risg y bydd y Bwrdd lechyd yn wynebu pwysau difrifol ar ei sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad monitro 9 mis yn rhagweld ddiffyg ariannol o £5.9 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Mae diffyg ariannol yn debygol o gynyddu amserau talu credydwy'r ac effeithio ar berfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP).</p> <p>Mae polisi taliadau'r Sector Cyhoeddus a'r datgeliadau yn parhau i fod yn faes risg, gan ystyried y pryderon y llynedd nad oedd y Bwrdd wedi cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac nad oedd wedi cyrraedd y targed.</p> <p>Nodwn na fydd y datgeliadau PSPP ar gyfer 2015-16 yn cynnwys taliadau Gofal Sylfaenol, yn unol â gofynion diwygiedig Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r PSPP, gan ystyried y pwysau ariannol a'r targed gweinyddol ar y Bwrdd lechyd.</p>	<p>Cynhaliwyd y gwaith archwilio yn ôl y bwriad ac adroddwyd y canlyniadau i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ym mis Mehefin 2016. Cyrhaeddodd y Bwrdd lechyd ei darged gweinyddol yn ystod 2015-16.</p>

Risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn feichus.</p> <p>Bydd Adroddiad Blynyddol tair rhan yn cael ei lunio ar gyfer 2015-16. Bydd yr adran sy'n adrodd ar atebolrwydd yn cael ei llunio ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol ym mis Mehefin. Bydd adran yr adroddiad ar berfformiad yn cael ei llunio erbyn mis Medi.</p> <p>Bydd angen i'r Bwrdd lechyd roi trefniadau priodol yn eu lle i baratoï'r adroddiad atebolrwydd ar yr un pryd â'r datganiadau ariannol a sicrhau bod papurau gwaith digonol yn cael eu darparu'n brydlon i'w harchwilio.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n agos â staff y Bwrdd lechyd i fonitro cynnydd, ac yn ceisio datrys unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag amseru cyn gynted ag sy'n bosibl fel bo modd bodloni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon.</p>	<p>Bu'r tîm archwilio'n gweithio gyda staff y Bwrdd lechyd, yn ôl y bwriad, i fodloni'r amserlen ar gyfer y datganiadau ariannol a'r adroddiad atebolrwydd ar gyfer 2015-16.</p>
<p>Caiff y cyfrifon blynyddol eu llunio'n unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd gael dealltwriaeth lawn o'r gofynion hyn, gan ymateb i newidiadau a sicrhau y nodir ac yr ymdrinnir â risgiau a materion mewn modd priodol.</p> <p>Dyma rai meysydd risg penodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amcangyfrifon, yn enwedig ar gyfer darparu gofal iechyd parhaus, gwariant ar ofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol;</li> <li>• trafodion sylweddol â phartion cysylltiedig; a</li> <li>• chywirdeb a chyflawnder yr Adroddiad ar Daliadau, o ystyried yr amryw o newidiadau i Aelodau Gweithredol ac Aelodau nad ydynt yn Swyddogion yn ystod y flwyddyn.</li> </ul>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n archwilio'r datganiadau ariannol gan ganolbwyntio'n arbennig ar y meysydd risg hyn, drwy gynnal profion trwyadl.</p>	<p>Cynhaliwyd profion archwilio trwyadl fel y cynlluniwyd ym mhob maes perthnasol o'r datganiadau ariannol.</p> <p>Cafodd un mater ei adrodd i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ym mis Mehefin 2016. Byddwn yn edrych ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ar hyn fel rhan o'n harchwiliad nesaf.</p>



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)